

Cofion

- Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf heddiw â Mari Elin Wiliam (Llansannan) yn ei phrofedigaeth o golli ei thad, Edgar Williams, un a fu'n ofalgar ac yn driviawn iddi. Mae'n cydymdeimlad hefyd â'i frawd, Dewi Williams (Llanefydd) a gweddiill y teulu. Cofiw'n amdanynt oll a gweddiwn eu bod yn adnabod cysur cwmni Duw a'i dangnefedd dros y dyddiau hyn.
- Mae Menna Streeter a Barbara Williams (Henllan) yn parhau'n yr Inffirmari, ond cafodd Glyn Davies (Saron) ddod adre yn dilyn treulio ychydig ddyddiau yn Ysbyty Glan Clwyd. Yr un fu hanes William Williams a Helen Mona Rossington (Llanfair) hefyd, y ddau wedi cael llawdriniaeth yn ystod y pythefnos ddiwethaf. Mae Geraint Davies (Llansannan) hefyd wedi dod adre a diolchwn am bob gofal a gafodd yntau tra yn yr ysbyty. Gweddiwn y byddant oll yn adnabod gofal tyner a heddwch yr Arglwydd yn eu hangen. Diolchwn amdanynt, a chyflwynwn hwy i'r Arglwydd, gan ofyn Iddo gysgodi drostynt, a gwyllo dros eu hanwyliaid yr un modd.
- Mae eraill o'r Ofalaeth ynghanol amryw dreialon, a phery pob un ohonynt yn ein gweddiâu o ddydd i ddydd.

I ddod

- Noson ar gyfer y rhai sy'n ymddiriedolwyr ac/neu'n wirfoddolwyr yn y gwahanol eglwysi i **wirio ffurflenni'r Biwro Cofnodion Troseddol (CRB)** nos Iau, Mehefin 30ain yn Festri Groes rhwng 7.00 ac 8.00. Cofiwch y bydd angen dogfennau adnabod arnoch (gwelwch y rhestr ar gefn y daflen cyfarwyddiadau a gawsoc hefo'r ffurflen).
- Bydd **Martyn Geraint** yn dod draw i'r Fro i oedfa'r bore ein Sul **i-Grist** eleni a gynhelir ar Orffennaf 3ydd yn Llansannan. Yna, bydd cyfle pellach ar ôl yr oedfa i gymdeithasu ac i gael picnic yn y Brenig. Bydd trefniadau eraill wedi eu gwneud os na fydd y tywydd yn ffafriol.
- **Cwrs hyfforddiant i flaenoriaid ac aelodau eglwysi'r Henaduriaeth** yn Nhrefnant ar Orffennaf 6ed am 7.00. Y thema y tro hwn fydd 'Strwythur / Yr Oedfa'.
- Cynhelir **Cystadleuaeth Pêl-droed 5-bob-ochr** yng Ngherrigydrudion nos Lun, Gorffennaf 11eg. Bydd tair cystadleuaeth: Bl.2,3 a 4; Bechgyn Bl. 5+6; a Merched Cynradd. Enwau i Anne Lloyd (01490 420589) erbyn Gorffennaf 8fed.
- Bydd y cwrs **Souled Out**, sydd ar gyfer ieuenctid hŷn, yn cael ei gynnal yng Ngholeg y Bala, Awst 12fed-19fed. Mae'r Henaduriaeth yn cynnig cymhorthdal o hyd at 25% i bob unigolyn sydd am fynd ar y cwrs. I dderbyn y cymhorthdal, cysylltwch â Mair (870632) mor fuan â phosibl, os gwelwch yn dda.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 19^{eg} Mehefin 2011

Ceisiadau gweddi i Celfyn (550274)
neu Hafwen (813445) cyn nos
Fawrth, os gwelwch yn dda.

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Fe fydd yna ddathlu mawr yn y Bala yr wythnos hon – dathlu a chofio am Thomas Charles yn ordeinio wyth o bregethwyr lleyg i weinyddu'r cymun a thrwy hynny sefydlu corff eglwysig newydd – sef y 'Methodistiaid Calфинаidd'. O'i osod allan fel yna 'dydio ddim yn swnio'n llawer o beth! Hawdd fyddai maddau i chi am feddwl 'so what?'

Erbyn meddwl, cychwyniadau ddigon bychan sydd i lawer o'r pethau sydd wedi bod yn fwyaf dylanwadol yn y byd. Meddylwch am ddarganfyddiadau mawr meddygaeth – x-ray, penicillin, darganfod DNA; neu gychwyniadau ein chwaraeon mwyaf poblogaidd - pêl-droed, rygbi, criced, fformiwla 1 a thennis – cychwyniadau digon bychan ond mae eu dylanwad heddiw yn aruthrol fawr!

Ond i ddod yn ôl i'r Bala yn 1811. Cam eithriadol o bwysig oedd y cam a gymerwyd i ordeinio'r wyth – Thomas Jones o Ddinbych yn eu plith. Byddai hanes Cymru dros y ddwy ganrif olaf yn wahanol iawn heb y Methodistiaid Calфинаidd, yr Annibynwyr, y Bedyddwyr a'r Wesleaid! Mae'n debyg nad oedd dylanwad yr 'Hen Gorff' yn dda trwyddo draw – digwyddodd pethau creulon yn enw crefydd, ac fe roedd yna lond trol o ragrith a chulni – ond fe ddaeth â llawer iawn o ddaioni hefyd i ni fel Cymry.

Dyna i chi'r Ysgolion Sul ddaru ddysgu cenedlaethau o bob cwr o Gymru i ddarllen ac i ddarllen y Beibl. Y Cyfarfodydd Gweddi a'r Seidatau wedyn ddaru ddyfnhau profiad ysbrydol miloedd o Gristnogion a'u dysgu i roi mynegiant i'w meddwl, eu gofidiau a'u gobeithion – dawn a wnaeth y werin yn werin llafar. Pan ddaeth yn rhaid codi llais yn erbyn gormes anghyfiawn, roedd gan Gymru arweinwyr abl a oedd wedi eu trwytho yn egwyddorion cyfiawnder Cristnogol ac yn abl i sefyll i fyny'n gyhoeddus i arwain a llywio barn.

Dyna i chi Bregethu'r Gair a'r dylanwad a gafodd pregethu ar fywyd cyhoeddus Cymru, ar arweinwyr diwydiannol a gwleidyddol Cymru a Lloegr trwy'r capeli Cymraeg ym mhrifddinasoedd Lloegr ac ar werin Cymru a'i diwylliant. A thu hwnt i Gymru – y Genhadaeth Dramor – ddaru gario'r newyddion da am Waredwr i bedwar ban byd! Heb sôn am y llu o fudiadau elusengar ddaru helpu miloedd o deuluoedd a phlant a'r mudiadau fel y Band of Hope a Dirwest ddaru atal dioddefaint mawr i filoedd.

Cawsom y fraint o wrando ar Meirion nos Sul diwethaf yn ein hannog i weddio dros yr 'Hen Gorff' neu Eglwys Bresbyteraidd Cymru fel y mae'n cael ei galw erbyn hyn. Dangosodd sleid yn llawn o enwau'r rhai sy'n gweithio i EBC. Tristwch mawr i mi oedd sylweddoli bod modd ffitio enwau pawb ohonom ar un sleid! Bron nad ydym yn ôl at y niferoedd bychain unwaith eto ac fe fydd llawer ohonom yn meddwl yn aml – beth yw dylanwad EBC ar fywyd Cymru heddiw?

Wrth ddathlu'r Pentecost a chofio am y niferoedd bychain hynny yn Jerwsalem ddaru droi y byd a'i ben i waered dan ddylanwad yr Ysbryd Glân mae'n debyg mai cwestiwn arall yw'r pwysicaf i ni: 'Beth y mae'r Ysbryd yn fy ngalw i i'w wneud â'r bywyd a roddodd imi?' Chwiliwn a gweddiwn am yr ateb a gobeithio y bydd Duw yn cydio ynom ni ac yn ein defnyddio ninnau i newid y sefyllfa ac i ddwyn ffrwyth. Croeso i oedfaon y dydd!

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.
- Llun • Grwpiau **Adnabod** Aneurin, Elen a Mair yn cyfarfod am 8.00.
- Mawrth • **Cyfarfod Gwedd'i'r Fro** yn Groes am 7.30.
- Mercher • **Darganfod Cristnogaeth** yn Festri Cefn Meiriadog am 7.30.
- **Cyflwyniad i Ddathlu Ordeiniad Cyntaf 1811** yng Nghapel Tegid, Y Bala am 7.00
- Sadwrn • **Darlithoedd DAWN Cymru** yn Bow Street, Aberystwyth. Mwy o fanylion gan Rhun (rhunmyrffi@btinternet.com) neu Rhodri (rhods84@hotmail.com)
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn Williams, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma • Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Sul nesaf • Bydd y Parch. Meurig Dodd yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Llansannan

- Sul yma • Bydd y Parch T L Williams yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Bydd Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Iau • Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf • Bydd Steffan Morris yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Bydd Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Saron a Pheniel

- Sul yma • Bydd y Parch John Robinson yn arwain oedfa yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00, ac yn Saron bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg â gwasanaeth y bore (SYLWER AR Y NEWID). Cynhelir Arholiad Llafar y plant ieuengaf yn syth ar ôl oedfa'r bore.
- Sul nesaf • Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.

Cyhoeddiadau

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma • Y Parch T L Williams fydd yn arwain yr oedfa yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf • Bydd Steffan Morris yn arwain oedfa yn Nhanyfron am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma • Bydd Steffan Morris yn arwain oedfa yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00. Bydd Ysgol Sul undebol i'r plant yn Henllan am 2.00.
- Llun • Bydd Seiat Ymweld yr Henaduriaeth yn dod i Henllan i gyfarfod y swyddogion am 7.00 ac yna bydd cyfarfod cyhoeddus i weddill yr aelodau am 7.30. Y Parch Ifor ap Gwilym fydd yn agor y drafodaeth a'r adnod dan sylw fydd: "*Canys eiddo Duw ydym ni, fel cydweithwyr; gardd Duw, adeiladwaith Duw, ydych chwi.*" – 1 Cor. 3:9
- Sul nesaf • Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma • Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Sul nesaf • Bydd Elinor Owen yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cyd-reddeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:
Mair - ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536, neu i
Aneurin - ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau